Keep Wales Tidy
Annual Review

Working towards a Clean,
Safe and Tidy Wales

Cadwch Gymru'n Daclus
Adolygiad Blynyddol

Gweithredu i greu Cymru Lân,
Diogel a Thaclus

2008–2009



Working towards a Clean, Safe and Tidy Wales

Gweithredu i greu Cymru Lân, Diogel a Thaclus

Contents

Foreword by Jane Davidson AM, Minister for Environment Sustainability and Housing	4-5
Chair and Chief Executive's report	6-9
Tidy Towns	10-13
Eco-Schools	14-15
Young Reporters for the Environment	16-17
Local Environmental Audit and Management Systems (LEAMS)	18-23
Blue Flags	24-26
Green Coast Awards	27
Seaside Awards	28-29
Tidy Wales Awards	30-33
Tidy Wales Week	34-35
Cleaner Greener Communities	36-37
Green Communities	38-39
Environment Wales	40-43
Performance against targets	44
A Quality Organisation	45
Staff/Board members	46-47
Financial information	48-49
Acknowledgements	50-51

Cynnwys

Rhagair gan Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai	4-5
Adroddiad y Cadeirydd a Phrif Weithredwr	6-9
Trefi Taclus	10-13
Eco-Sgolion	14-15
Gohebwyr Ifanc yr Amgylchedd	16-17
System Archwilio a Rheoli'r Amgylchedd Lleol (SARAL)	18-23
Baneri Glas	24-26
Gwobrau Arfordir Glas	27
Gwobrau Glan Môr	28-29
Gwobrau Cymru Daclus	30-33
Wythnos Cymru Daclus	34-35
Cymunedau Glanach a Gwyrddach	36-37
Cymunedau Gwyrdd	38-39
Amgylchedd Cymru	40-43
Perfformiad yn erbyn targedau	44
Mudiad o safon	45
Staff/Aelodau'r Bwrdd	46-47
Cyllid	48-49
Diolchiadau	50-51

Foreword by
Jane Davidson AM, Minister for Environment Sustainability and Housing

In April 2008, I launched the Tidy Towns programme, a two-part Welsh Assembly Government initiative between Keep Wales Tidy and all 22 local authorities. The aim of the project is to empower the people of Wales to take responsibility for the quality of their local environment. Keep Wales Tidy is responsible for the community engagement element of the initiative and has dedicated Tidy Towns Officers, covering every local authority to support the work. This has proved very successful, with 20,000 volunteers participating during 2008-09 and Keep Wales Tidy working in more areas of Wales than ever before.

Then in February 2009, Keep Wales Tidy published its first Cleanliness of Wales Report, based on scores obtained by using the Local Environmental Audit and Management System (LEAMS). The data included in this report provide both a baseline level of cleanliness for each local authority and national figures. As this important information develops and becomes more robust, it can be used to direct future improvements.

Other considerable successes achieved by Keep Wales Tidy this year include:

- Over 1,600 schools registered with the Eco-Schools Programme;
- Attracting over 40,000 volunteers during Tidy Wales Week and the Heads of the Valleys Spring Clean;
- Maintaining a high number of coastal awards on Welsh beaches and marinas – 47 Blue Flag Awards, 111 Seaside Awards and 46 Green Coast Awards; and
- Providing support for local authorities and organisations in both the private and voluntary sectors.

It is my pleasure to commend Keep Wales Tidy again this year. The achievements highlighted in this report demonstrate the importance of the organisation in improving the local environment in Wales.

Rhagair gan
Jane Davidson AC, Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

Cefais y fraint, yn Ebrill 2008, o lansio'r rhaglen Trefi Taclus, sef menter ar y cyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru rhwng Cadwch Gymru'n Daclus a'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru. Nod y prosiect yw galluogi pobl Cymru i ysgwyddo cyfrifoldeb am ansawdd eu hamgylchedd lleol. Cadwch Gymru'n Daclus sydd yn gweithredu'r elfen o'r fenter sydd yn ceisio cynnwys y cymunedau ac mae'n cyflogi swyddog prosiect Trefi Taclus ym mhob un o'r awdurdodau lleol i gefnogi'r gwaith. Bu hyn yn llwyddiant mawr oherwydd yn ystod 2008-09 bu 20,000 o wirfoddolwyr yn cydweithio gyda Cadwch Gymru'n Daclus mewn mwy o ardaloedd yng Nghymru nag erioed o'r blaen.

Yna yn Chwefror 2009, am y tro cyntaf erioed, cyhoeddodd Cadwch Gymru'n Daclus Adroddiad Glendid Cymru ar sail sgorau a gasglwyd drwy ddefnyddio'r System Reoli ar gyfer Archwilio'r Amgylcheddol Lleol. Mae'r data sydd yn yr adroddiad yn waelodlin o ran lefel glendid ar gyfer pob awdurdod lleol a hefyd yn nodi'r ffigurau ar lefel genedlaethol. Wrth i'r data pwysig hyn ddatblygu a dod yn gadarnach bydd modd eu defnyddio i ffurfio cyfeiriad gwelliannau yn y dyfodol.

Mae llwyddiannau eraill sylweddol Cadwch Gymru'n Daclus eleni'n cynnwys y canlynol:

- Cofrestrodd mwy na 1,600 o ysgolion gyda'r Rhaglen Eco-Sgolion;
- Denwyd mwy na 40,000 o wirfoddolwyr yn ystod Wythnos Cymru Daclus a Spring Clîn Blaenau'r Cymoedd;
- Eleni eto cafodd nifer helaeth o draethau a marinas Cymru wobrau arfordir – cafodd 47 y Faner Las, 111 y Wobr Glan Môr a 46 y Wobr Arfordir Glas; a
- Rhoddwyd cymorth i awdurdodau lleol a sefydliadau yn y sector preifat a'r sector gwirfoddol.

Mae'n bleser gennyf roi clod i Cadwch Gymru'n Daclus eleni eto. Mae'r holl waith sydd yn cael ei ddisgrifio yn yr adroddiad hwn yn dangos mor bwysig yw'r sefydliad ar gyfer gwella amgylchedd lleol Cymru.

"Keep Wales Tidy remains committed to achieving excellence and good practice."
Tegryn Jones, Chief Executive

Chair and Chief Executive's report

Introduction

The past year has seen significant change for Keep Wales Tidy, with a number of new programmes and activities being undertaken and an increase in our ability to support people across the whole of Wales to contribute towards achieving a clean, safe and tidy Wales.

Tidy Towns

The Tidy Towns programme is a new Welsh Assembly Government partnership programme between Keep Wales Tidy and the 22 Welsh Local Authorities. Keep Wales Tidy's contribution has seen the establishment of officers in each local authority area whose main role is to support volunteers to take responsibility for their own local area. This work has built on the experience gained from successful programmes such as Clean Rivers, Clean Coasts and Pride in our Communities over many years. Tidy Towns has been very well received across Wales, with a wide number of organisations undertaking work to support the programme. The programme has exceeded expectations with over 20,000 volunteers participating in the programme. In order to achieve its Mission we will encourage other to engage in effective action to maintain a cleaner, safer, tidier Wales. This will involve encouraging people to behave in a responsible manner and to encourage people to take responsibility for their own local environment. Keep Wales Tidy will seek to identify and share good practice to ensure that it supports effective action.

"Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn parhau i fod yn gwbl ymroddedig i ragoriaeth ac arfer da."
Tegryn Jones, Prif Weithredwr

Adroddiad y Cadeirydd a Prif Weithredwr

Cyflwyniad

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn flwyddyn o newid mawr i Cadwch Gymru'n Daclus. Buom yn ymwneud â nifer o raglenni a gweithgareddau newydd ac rydym mewn gwell sefyllfa nac erioed i gefnogi pobl ar hyd a lled Cymru a chyfrannu tuag at gael Cymru lân, ddiogel a thaclus.

Trefi Taclus

Rhaglen bartneriaeth newydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yw Trefi Taclus, ac mae'n cael ei rhedeg gan Cadwch Gymru'n Daclus mewn cydweithrediad â'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru. Mae cyfraniad Cadwch Gymru'n Daclus wedi arwain at sefydlu swyddog ymhob ardal awdurdod lleol i fod yn bennaf gyfrifol am gefnogi gwirfoddolwyr i ysgwyddo'r cyfrifoldeb am eu hardal leol. Mae'r gwaith hwn wedi adeiladu ar y blynyddoedd o brofiad a fagwyd o redeg rhaglenni llwyddiannus megis Afonydd Glân, Gofal Arfordir a Balchder yn ein Cymunedau. Mae Trefi Taclus wedi cael croeso brwd ledled Cymru ac mae nifer fawr o sefydliadau yn cydweithio i gefnogi'r rhaglen. Mae'r rhaglen wedi gwneud yn llawer gwell na'r disgwyl hyd yn oed, ac mae mwy na 20,000 o wirfoddolwyr yn cymryd rhan. I gyflawni gofynion ein gorchwyl byddwn yn annog eraill i weithredu yn effeithiol i sicrhau Cymru lanach,diogel a thaclusach. Bydd hyn yn bosib drwy annog pobl i ymddwyn mewn modd cyfrifol tuag at eu hamgylchedd leol. Bydd Cadwch Gymru'n Daclus ym mynd ati i adnabod a rhannu arferion da i sicrhau cefnogaeth o weithredu'n effeithiol.

Cleanliness of Wales Report

In 2007, Keep Wales Tidy started a process of undertaking an annual cleanliness survey of all local authority areas. This work supported the new Streetscene performance indicator and enabled Keep Wales Tidy to produce the first Cleanliness of Wales report. The report provided a benchmark for the cleanliness of Wales and includes valuable details about the nature of littering in Wales, which can contribute towards the developing of strategies to improve the cleanliness of our nation.

The Eco-Schools Programme

The Eco-Schools programme continues to provide school pupils in Wales with the opportunity to identify environmental problems in their school and local area and to develop solutions. Over the coming years we will be working with pupils, teachers, Local Authorities and other partners to support schools to embed the programme into the work of schools and enable even more schools to achieve the International Green Flag.

Coastal Awards

This year saw over 110 beaches and marinas achieving awards in Wales, with 47 Blue Flags being awarded. This reflects the excellent work and investment undertaken to improve the water quality by Dŵr Cymru and land-based infrastructure by Local Authorities.

Adroddiad Glendid Cymru

Yn 2007, cychwynnodd Cadwch Gymru'n Daclus broses i gynnal arolwg glendid blynyddol o'r holl ardaloedd awdurdod lleol. Roedd y gwaith hwn yn cefnogi'r dangosydd perfformiad 'Strydlun' ac arweiniodd at gynhyrchu'r adroddiad Glendid Cymru cyntaf gan Cadwch Gymru'n Daclus. Rhoddodd yr adroddiad feincnod ar gyfer glendid Cymru ac mae'n cynnwys manylion defnyddiol iawn am natur sbwriel yng Nghymru y gellid eu defnyddio i gyfrannu at ddatblygu strategaethau i wella glendid ein cenedl.

Rhaglen Eco-Sgolion

Mae'r rhaglen Eco-Sgolion yn parhau i roi cyfle i ddisgyblion ysgol yng Nghymru i adnabod problemau amgylcheddol yn eu hysgol a'u hardal leol a meddwl sut i ddatrys y problemau hynny. Dros y blynyddoedd nesaf byddwn yn gweithio gyda disgyblion, athrawon, Awdurdodau Lleol a phartneriaid eraill i helpu ysgolion i gynnwys y rhaglen ym mhrif raglen waith yr ysgol a galluogi rhagor o ysgolion i ennill y Faner Werdd Rhyngwladol.

Gwobrau Arfordirol

Eleni, derbyniodd mwy na 110 o draethau a marinas yng Nghymru wobr, a dyfarnwyd 47 Baner Las i gyd. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwaith ardderchog a'r buddsoddiad sy'n cael ei wneud gan Dŵr Cymru, i wella ansawdd y dŵr, a chan Awdurdodau Lleol i wella'r isadeiledd ar dir sych.

Internal Work

As an organisation, KWT remains committed to achieving excellence and good practice. We retained our Investors in People Award, were awarded the Corporate Health Standard Bronze Award and were awarded a One Star recognition as part of the Best Companies accreditation scheme. We are working towards achieving the standards for Investing in Volunteer.

Keep Wales Tidy continued to receive extensive media coverage. Staff undertook over 100 interviews on TV and radio and over 600 articles about Keep Wales Tidy initiatives appeared in the local and national press. In addition, we undertook a process to develop a new corporate image.

Recognising Support

We would like to thank Jane Davidson AM, the Minister for Environment, Sustainability and Housing, and officers from the Welsh Assembly Government Local Environmental Quality Department for their active support during the year.

We also appreciate the support we have received from other departments of the Welsh Assembly Government such as Visit Wales, the Department of Economy and Transport, the Department of Children, Education, Lifelong Learning and Skills, the Department of Social Justice and Local Government and Assembly Sponsored Public Bodies such as the Countryside Council for Wales and Environment Agency Wales. This support recognises the cross-cutting importance of a clean, safe and tidy Wales. The support of the twenty two Local Authorities is also invaluable along with our numerous partners in the voluntary sector. From experience we know that working with partners gives us the best results and we value all these positive partnerships.

The success of Keep Wales Tidy is dependent on the hard work of both staff and volunteers. We would like to thank

Gwaith Mewnol

Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn parhau i fod yn ymroddedig i ragoriaeth ac arfer da. Daliwyd gafael ar ein statws Buddsoddwyr mewn Pobl, a dyfarnwyd Gwobr Efydd Safonau Iechyd Corfforaethol i ni yn ogystal â chydnabyddiaeth Un Seren i ni o dan y cynllun achredu Cwmnïau Gorau. Rydym ar hyn o bryd yn gweithio tuag at gyrraedd y safonau ar gyfer Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr.

Eto eleni, cafodd Cadwch Gymru'n Daclus lawer o sylw yn y cyfryngau. Cymerodd y staff ran mewn mwy na 100 o gyfweliadau ar y teledu a'r radio ac ymddangosodd mwy na 600 o erthyglau am fentrau Cadwch Gymru'n Daclus yn y wasg leol a chenedlaethol. Hefyd, cychwynnwyd ar broses i ddatblygu delwedd gorfforaethol newydd.

Cydnabod Cefnogaeth

Hoffem ddiolch i Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai a swyddogion o Adran Ansawdd yr Amgylchedd Lleol Llywodraeth Cynulliad Cymru am eu cefnogaeth barod trwy gydol y flwyddyn.

Rydym hefyd yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a gafwyd gan adrannau eraill yn Llywodraeth Cynulliad Cymru megis Croeso Cymru, yr Adran Economi a Thrafnidiaeth, yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol a Chyrff Cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn cynnwys Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Mae'r gefnogaeth hon yn adlewyrchu mor bwysig yn llorweddol yw sicrhau Cymru lân, ddiogel a thaclus. Mae cefnogaeth y 22 Awdurdod Lleol hefyd yn hollbwysig ynghyd â'n partneriaid niferus yn y sector gwirfoddol. O brofiad, rydym yn gwybod mai trwy weithio gyda phartneriaid y gallwn gyflawni'r canlyniadau gorau ac rydym yn gwerthfawrogi'r partneriaethau cadarnhaol hynny'n fawr iawn.

all the Board Members, staff and volunteers of Keep Wales Tidy for their splendid work during the year and for their contribution to the success of the organisation.

The next year will see exciting opportunities to develop the local environmental quality agenda and hopefully the passing of the Legislative Competence Order on the Environment. Keep Wales Tidy looks forward in playing a full part in using these new powers.

Summary by Katherine Hughes, Chairman and Tegryn Jones, Chief Executive.

Mae llwyddiant Cadwch Gymru'n Daclus yn ddibynnol ar waith caled staff a gwirfoddolwyr. Hoffem ddiolch i holl Aelodau'r Bwrdd, staff a gwirfoddolwyr Cadwch Gymru'n Daclus am eu gwaith ardderchog trwy'r flwyddyn a'u cyfraniad tuag at lwyddiant y sefydliad.

Bydd y flwyddyn nesaf yn dod â chyfleoedd cyffrous i ddatblygu'r agenda ansawdd amgylchedd lleol os caiff y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar yr Amgylchedd arfaethedig ei basio. Edrycha Cadwch Gymru'n Daclus ymlaen at chwarae rhan lawn wrth ddefnyddio'r pwerau newydd hyn.

Crynodeb gan Katherine Hughes, Cadeirydd a Tegryn Jones, Prif Weithredwr.

Tidy Towns

Tidy Towns is a new, two-part initiative between Keep Wales Tidy and Welsh Local Authorities, funded primarily by the Welsh Assembly Government.

The project was launched by Jane Davidson, Minister for Environment, Sustainability and Housing in Newport in April 2008 and its aim is to **'support the people of Wales to take responsibility for the quality of their local environment so that they can contribute towards a Clean, Safe and Tidy Wales'.**

Keep Wales Tidy is delivering the community engagement element of the Initiative by employing a dedicated project officer for every Local Authority in Wales – a first for KWT! Officers work with local communities on a range of practical, environmental improvement projects including **community clean-ups, biodiversity enhancement, flytipping prevention, capacity-building and training for volunteers, Invasive species control, involvement of disengaged young people, habitat reclamation, access improvements** and **waste amnesties**.

Achievements during the reporting period:

- **577 groups** assisted to improve their environment
- **20,000 volunteers** taking part
- **4577 practical improvement events** were held
- **3402 clean-ups** resulting in the removal of 1218 tonnes and 28,679 bags of waste
- **64 large-scale partnership events** took place across Wales
- **248 events awareness-raising events** to show how people can get involved.

Trefi Taclus

Mae Trefi Taclus yn fenter newydd mewn dwy ran rhwng Cadwch Gymru'n Daclus ac Awdurdodau Lleol Cymru ac mae'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru'n bennaf.

Lansiwyd y prosiect yng Nghasnewydd yn Ebrill 2008 gan Jane Davidson, AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, a'i nod yw **'cynorthwyo pobl Cymru i ysgwyddo cyfrifoldeb am ansawdd eu hamgylchedd lleol fel y gallant gyfrannu tuag at Gymru Lân, Ddiogel a Thaclus'.**

Cadwch Gymru'n Daclus sydd yn gweithredu'r elfen o'r fenter sydd yn ceisio cynnwys y gymuned a gwneir hynny drwy gyflogi swyddog prosiect yn benodol ar gyfer y fenter hon ym mhob awdurdod lleol yng Nghrymu - am y tro cyntaf yn hanes Cadwch Gymru'n Daclus! Mae'r swyddogion yn gweithio gyda'r cymunedau lleol ar nifer o brosiectau ymarferol i wella'r amgylchedd yn cynnwys **glanhau ardaloedd, gwella'r fioamrywiaeth, atal tipio anghyfreithlon, adeiladu capasiti a chyflwyno hyfforddiant i wirfoddolwyr, rheoli rhywogaethau ymledol, cynnwys pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio, adfer cynefinoedd, gwella mynediad** ac **amnestau gwastraff.**

Yn ystod y cyfnod y mae'r adroddiad hwn amdano cyflawnwyd y canlynol:

- **bu 577 o grwpiau'n** helpu i wella eu hamgylchedd
- **bu 20,000 o wirfoddolwyr** yn cymryd rhan
- cynhaliwyd **4577 o ddigwyddiadau ymarferol**
- cynhaliwyd **3402 o sesiynau glanhau** a chliriwyd 1218 o dunelli, a 28,679 llond bag o wastraff
- cynhaliwyd **64 o ddigwyddiadau mawr gan bartneriaethau** ledled Cymru
- cynhaliwyd **248 o ddigwyddiadau i godi ymwybyddiaeth** i ddangos sut y gall pobl gymryd rhan.

"Once upon a time there was a small ex-mining valley which had been forgotten by everybody. There was no work, therefore shops closed. Then one day something happened: residents were encouraged to try and help their community. This was when Keep Wales Tidy came into our lives. A committee was formed from people who wanted to make the valley green again, and was assisted by Keep Wales Tidy who gave sound advice and practical help. We started with just six people; now we have in the region of 20 helpers at our clean-ups. This initiative has brought many people together who would never have known each other otherwise. Many people have gained confidence and can talk directly with representatives from councils. We are going from strength to strength thanks to KWT."
Pat Freke – Evanstown Voluntary Organisation (Bridgend)

"The children really enjoy litter picking and are becoming more aware of the difference they can make to their environment. Recently, more parents are getting involved as well, and the Tidy Towns activities are helping to strengthen the community. The amount of rubbish we collect is reducing and we no longer get passers by telling us we're wasting our time!

"As well as litter picking, we planted daffodil bulbs on the main approach to Flint Castle, which really cheered the estate up in the spring. It's a great chance to meet new people and share ideas and experiences. I've thoroughly enjoyed being part of the Tidy Towns project, and I'm very proud of what we have achieved on the Castle Estate."
Norah Williams – Castle Estate, Flintshire

"Amser maith yn ôl roedd cwm a fu gynt yn ardal lofaol ond a anghofiwyd yn llwyr. Doedd dim gwaith a chaeodd y siopau. Yna un diwrnod digwyddodd rhywbeth: cafodd y trigolion eu hannog i geisio helpu eu cymuned. Dyna pryd y daeth Cadwch Gymru'n Daclus i'n bywydau. Ffurfiwyd pwyllgor o bobl oedd yn awyddus i droi'r cwm yn wyrdd unwaith eto a chafwyd cyngor gwerthfawr a chymorth ymarferol gan Cadwch Gymru'n Daclus. Dim ond chwech o bobl oedd yn y grŵp i gychwyn ond erbyn hyn mae rhyw 20 o bobl yn dod at ei gilydd i helpu yn ein sesiynau glanhau. Mae'r fenter wedi dod â llawer o bobl ynghyd, pobl na fyddai fel arall wedi cyfarfod. Mae llawer o bobl wedi magu hunanhyder ac maent yn medru siarad â chynrychiolwyr y cynghorau. Rydym yn mynd o nerth i nerth ac mae'r diolch i Cadwch Gymru'n Daclus."
Pat Freke – Mudiad Gwirfoddol Tre Ifan (Pen-y-bont ar Ogwr)

"Mae'r plant yn mwynhau casglu sbwriel ac maent yn dod yn fwy ymwybodol o'r gwahaniaeth y medrant ei wneud i'r amgylchedd. Mae mwy o rieni'n ymuno yn y gwaith yn ddiweddar ac mae gweithgareddau Trefi Taclus yn helpu i gryfhau'r gymuned. Mae llai o sbwriel i'w gasglu ac erbyn hyn does neb yn dweud wrth ein gweld yn gweithio ein bod yn gwastraffu ein hamser!

"Yn ogystal â chasglu sbwriel rydym wedi plannu bylbiau cennin pedr ar y ffordd sydd yn arwain at Gastell y Fflint ac roedd y blodau'n codi calon pawb ar y stad yn y gwanwyn. Mae'n braf cael cwrdd â phobl newydd a rhannu syniadau a phrofiadau. Rydw i wedi mwynhau bod yn rhan o'r prosiect Trefi Taclus ac rydw i'n falch iawn o'r hyn rydyn ni wedi ei gyflawni ar Stad y Castell."
Norah Williams – Stad y Castell, Sir y Fflint

"Two years ago I heard that the Council wanted to build 320 houses on our only green spaces in North Ely – I was totally devastated. I used these fields as a child, and so did my children who are now adults. So we formed a group called The Ely Garden Villagers. People were too afraid to take their children to the fields due to the stolen cars which were being burnt out there. We worked with the Arson Reduction Team to put bollards in place. It's been over 18 months since the bollards have been erected and the result has been amazing with no more stolen, burnt out cars. The community cannot believe the change, not just in our fields, but also in people's attitudes. We contacted Tidy Towns and spoke to Indeg Jones who was also amazing. The first event removed 25 tonnes of rubbish and the residents were very pleased with the result. That was seven months ago and apart from two incidents (which were quickly sorted) the site remains spotless.

"It is so rewarding to see the children enjoying themselves and knowing they have something to look forward to other than hanging around the streets. The atmosphere in Ely has totally changed. It took the threat of losing our fields to pull a community closer together. We now have a cleaner and a friendlier community and a lot more people have got to know one another. I for one am proud to say I live in Ely and could not be prouder to say Ely people truly do stick together."
Lynda Sullivan – Ely Garden Villagers

"Ddwy flynedd yn ôl clywais fod y Cyngor am adeiladu 320 o dai ar ein hunig ddarn o dir glas yng Ngogledd Trelái – a doeddwn i ddim yn hapus o gwbl. Roeddwn i'n defnyddio'r caeau hyn pan oeddwn yn blentyn ac roedd fy mhlant, sydd erbyn hyn yn oedolion, hefyd yn eu defnyddio. Felly aethom ati i ffurfio grŵp o'r enw Ely Garden Villagers. Doedd neb am fentro mynd â'u plant i'r caeau gan fod ceir wedi eu dwyn a'u llosgi yno. Buom yn cydweithio gyda'r Tîm Lleihau Atal Tanau Bwriadol a gosodwyd bolardiau yno. Mae blwyddyn a hanner ers hynny ac mae'r canlyniad yn syfrdanol a dim sôn am geir wedi eu dwyn yno. Dydy'r gymuned ddim yn medru credu bod y fath newid wedi digwydd, nid i'r caeau'n unig, ond yn agwedd pobl. Cawsom gyfle i siarad ag Indeg Jones, Trefi Taclus, ac roedd hithau'n wych. Yn ystod y digwyddiad cyntaf cliriwyd 25 tunnell o sbwriel ac roedd y trigolion yn hapus iawn oherwydd hynny. Mae saith mis ers hynny ac ar wahân i ddau ddigwyddiad (a gafodd eu datrys heb drafferth) mae'r safle'n dal yn gwbl glir.

"Mae mor braf gweld y plant yn eu mwynhau eu hunain a gwybod bod ganddynt rywbeth i edrych ymlaen ato heblaw am sefyll o amgylch y strydoedd. Mae'r awyrgylch wedi newid yn llwyr yn Nhrelái. Oni bai am y bygythiad y byddem yn colli'r caeau ni fyddai'r gymuned wedi dod at ei gilydd fel hyn. Mae gennym gymuned lanach a mwy cyfeillgar ac mae llawer o bobl wedi dod i adnabod ei gilydd. Rydw i'n falch o fedru dweud fy mod yn byw yn Nhrelái a bod pobl Trelái'n driw i'w gilydd."
Lynda Sullivan – Ely Garden Villagers

"When I pick up litter I feel as if I'm caring for the whole world."
Caitlin

Eco-Schools

The International Eco-Schools programme continues to be an extremely successful programme across Wales with over 90% of schools actively involved.

Funding from the Welsh Assembly Government's Environment Division, the Countryside Council for Wales and Waste Awareness Wales enabled the Eco-Schools team to make over 500 school visits and provide workshops and teacher training sessions on a range of themes.

The support provided has meant that pupils, teachers, parents and the wider community have been able to undertake some excellent activities, on their own and with a host of partners, to

"Pan rwy'n codi sbwriel, rwy'n teimlo fy mod yn gofalu am y byd i gyd."
Caitlin

Eco-Sgolion

Mae'r rhaglen Eco-Sgolion ryngwladol yn parhau i fod yn rhaglen hynod o lwyddiannus ar hyd a lled Cymru ac mae 90% o ysgolion yn cymryd rhan.

Yn sgil cefnogaeth ariannol gan Is-adran yr Amgylchedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Craff am Wastraff Cymru, bu modd i dîm Eco-Sgolion wneud dros 500 o ymweliadau ag ysgolion a rhoi gweithdai a sesiynau hyfforddi i athrawon ar bob math o themâu.

Mae'r gefnogaeth a gafwyd wedi golygu bod disgyblion, athrawon, rhieni a'r gymuned yn ehangach wedi medru cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau, yn annibynnol ac ar y cyd â phartneriaid, i wella cynaliadwyedd eu hysgol.

improve the sustainability of their schools.
650 prestigious International Green Flag Awards have now been awarded with many more schools working hard to progress and maintain the work that has already been done.

Celebrating innovative approaches

Once again the Millennium Stadium in Cardiff was the venue for the annual Eco-Schools awards ceremony also a number of events were organised across Wales by Local Authorities to celebrate the achievements of schools.

Schools all over Wales are approaching the Eco-schools programme in a variety of innovative ways, examples include schools where:
'parents have really come on board and we have noticed a positive change in the contents of children's lunch boxes as a result of our healthy eating curriculum.'
Brackla Primary School, Bridgend

Mae 650 o Faneri Gwyrdd Rhyngwladol bellach wedi eu dyfarnu ac mae llawer o ysgolion eraill yn gweithio'n galed er mwyn datblygu a chynnal y gwaith sydd eisoes wedi ei wneud.

Dathlu arloesedd

Unwaith eto, cynhaliwyd seremoni wobrwyo flynyddol Eco-Sgolion yn Stadiwm y Mileniwm yng Nghaerdydd a trefnodd Awdurdodau Lleol sawl digwyddiad ledled Cymru i ddathlu llwyddiant ysgolion.

Mae ysgolion ar hyd a lled Cymru yn gweithredu'r rhaglen Eco-Sgolion mewn ffyrdd arloesol iawn, ac mae enghreifftiau o ysgolion lle mae:
'rhieni wedi bod yn gefnogol iawn ac rydym wedi sylwi ar newid positif yng nghynnwys bocsys bwyd plant o ganlyniad i'r cwricwlwm bwyta'n iach.'
Ysgol Gynradd Brackla, Pen-y-bont ar Ogwr

Pupils have become involved with local businesses looking to reduce their Carbon Footprint by electing to use financial offset contributions to plant wildlife areas within school grounds.

The programme is also seen as an excellent tool for inclusivity within schools. **The most important contribution to school life has been that, while it (Eco-Schools Programme) provides opportunities for all to get involved and certainly educates the whole school on sustainability, it also provides an opportunity for pupils who have a real passion for protecting the environment with a chance to succeed above and beyond the traditional classroom environment.**

Young Reporters for the Environment

Young Reporters for the Environment (YRE) is one of the five programmes promoted by the Foundation for Environment Education (FEE) and the current pilot project is funded by the Countryside Council for Wales.

This international programme is designed to empower young citizens in secondary schools to investigate and report on local environmental issues. Every year an international competition takes place, the YRE Awards. Schools can work at a National or an International level and can choose from eight topics: Agriculture and Nature, Water, Waste, Energy, Climate Change, Coastline, Cities and Biodiversity.

The Welsh pilot project invited seven secondary schools to investigate the topic of Biodiversity. Five articles were submitted to the National Jury and the winner was an article called 'Alien Invasion' by pupils from Ysgol Brynhyfryd in Denbighshire. The runner up, 'Hedgehogs in Hiding', was written by pupils from Ysgol Dinas Bran, also in Denbighshire.

The two articles were then submitted to the International Jury to be judged and will be published in the annual YRE book.

Mae disgyblion wedi bod yn gweithio gyda busnesau lleol sy'n awyddus i leihau eu Hôl Troed Carbon trwy wneud cyfraniadau ariannol i blannu mannau ar gyfer bywyd gwyllt ar dir yr ysgol.

Mae'r rhaglen hefyd yn gynhwysol iawn. **Y cyfraniad pwysicaf i fywyd yr ysgol yw bod y Rhaglen Eco-Sgolion yn rhoi cyfle i bawb gymryd rhan. Mae'n sicr yn addysgu'r holl ysgol am gynaliadwyedd, ond mae hefyd yn rhoi cyfle i ddisgyblion sydd wir yn mwynhau diogelu'r amgylchedd i serennu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.**

Gohebwyr Ifanc yr Amgylchedd

Mae Gohebwyr Ifanc yr Amgylchedd (GIA) yn un o bump o raglenni sy'n cael eu hyrwyddo gan Sefydliad Addysg Amgylcheddol a Cyngor Cefn Gwlad Cymru sy'n ariannu y prosiect peilot.

Mae'r rhaglen rhyngwladol wedi cynllunio i alluogi dinasyddion ifanc o fewn ysgolion cyfun i edrych i mewn ac adrodd am ddigwyddiadau amgylcheddol.Pob blwyddyn cynhelir cystadleuaeth rhyngwladol,sef Gwobr y GIA. Bydd ysgolion yn gallu gweithio ar lefel Cenedlaethol neu Rhyngwladol a bydd dewis o wyth pwnc: Amaeth a Natur, Dŵr,Gwastraff,Newid yn yr Hinsawdd, Arfordir, Dinasoedd a Bioamrywiaeth.

A'r gyfer y peilot Cymreig gwahoddwyd saith ysgol i edrych mewn i Bioamrywiaeth. Fe anfonwyd pump erthygl i'r Rheithgor Cenedlaethol a'r ennillwyr oedd Ysgol Brynhyfryd yn Nimbych ar y pwnc o ' Fewnlifiad Estronol'. Yn yr ail safle roedd Ysgol Dinas Bran o Ddinbych, gyda 'Draenogod yn Llechu'.

Fe gyflwynwyd y ddwy erthygl i'r Rheithgor Rhyngwladol i'w beirniadu cyn eu cyhoeddi yng ngyhoeddiad blynyddol y GIA.

"The cycle survey ended with a feeling of tiredness but also satisfaction."

Jake Castle, KWT Surveyor

Local Environmental Audit and Management Systems (LEAMS)

A survey which is an independent validation of the cleanliness of the streets across the 22 local authorities, was undertaken using the Local Environmental Audit and Management System (LEAMS).

The surveyors undertook two 4% surveys in each local authority area to allow for seasonal variations. They also recorded information on the amount of graffiti, fly-posting, detritus, dog fouling and weeds found on the streets surveyed.

Each Local Authority is sent an individual report and the data and information from these is used to produce an all Wales report.

Preliminary findings for 2008–2009 show a minor reduction in the amount of smoking related litter from an average of 90% to 86%, but it is still the most common type of litter found on our streets. Last year's All Wales LEAMS report is available on Keep Wales Tidy's website. A first for the LEAMS process this year was a survey using pedal rather than motor power. The story below tells you more…

Midway through the year the LEQ team started to consider ways to lessen the team's carbon footprint. On average the team visit over 3200 streets as part of the LEAMS surveys. It was decided that one way to make a start was by abondoning cars in favour of a day's cycling. The centre of Cardiff seemed the obvious starting point.

"Er gwaetha'r blinder, mi ges foddhad mawr o gynnal yr arolwg ar gefn beic."

Jake Castle, un o arolygwyr CGD

System Archwilio a Rheoli'r Amgylchedd Lleol (SARAL)

Defnyddiwyd System Archwilio a Rheoli'r Amgylchedd Lleol, (SARAL), i gynnal arolwg, sy'n rhoi barn annibynnol am lendid strydoedd, mewn 22 o ardaloedd awdurdod lleol.

Cynhaliodd yr arolygwyr ddau arolwg 4% ym mhob ardal awdurdod lleol er mwyn cymryd i ystyriaeth amrywiadau tymhorol. Cofnodwyd gwybodaeth hefyd am faint o graffiti, posteri di-ganiatâd, detritws, baw cŵn a chwyn a oedd ar y strydoedd a archwiliwyd.

Anfonir adroddiad unigol at bob Awdurdod Lleol a defnyddir y data a'r wybodaeth o'r rhain er mwyn cynhyrchu adroddiad ar gyfer Cymru gyfan.

Mae'r canlyniadau cychwynnol ar gyfer 2008–2009 yn dangos peth lleihad mewn sbwriel sy'n gysylltiedig ag ysmygu gyda'r cyfartaledd yn gostwng o 90% i 86%, ond dyma yw'r math mwyaf cyffredin o sbwriel sydd ar ein strydoedd yn dal i fod. Mae'r adroddiad SARAL ar gyfer Cymru gyfan y llynedd ar gael ar wefan Cadwch Gymru'n Daclus. Am y tro cyntaf erioed, cyflwynwyd arolwg ar gefn beic yn hytrach na mewn ceir i fod yn rhan o'r broses SARAL. Mae'r stori isod yn egluro ymhellach…

Hanner ffordd trwy'r flwyddyn dechreuodd y tîm Ansawdd yr Amgylchedd Lleol ystyried ffyrdd o leihau eu hôl troed carbon. Mae'r tîm yn ymweld â mwy na 3200 o strydoedd ar gyfartaledd wrth gynnal arolygon SARAL. Penderfynwyd mai un syniad fyddai defnyddio beiciau yn hytrach na cheir. Canol Caerdydd oedd y man cychwyn amlwg.

Jake, a member of the team involved commented:
"It had been a while since I'd used my bike and I must say the 20p per mile incentive did push me in the right direction. Keep Wales Tidy made a saving too, paying half of what it would have cost had I used a car. The cycle survey ended with a feeling of tiredness but also satisfaction."

Policy documents

A number of policy papers with recommendations were produced, which if implemented could have beneficial effects on litter, fly-tipping and the general local environmental quality.

- **Fast food litter,** which provides explanations as to the rise in fast food litter, describes the implications of such litter and explores the various initiatives that have been implemented to tackle the issue, and makes recommendations aimed at local government and fast food industry.
- **Balloon Litter** examined the damage to wildlife caused by litter from the intentional act of releasing balloons into the environment, which is usually done during fundraising events.
- **Recycling bins – Recycling on the go,** which observes that Wales has an undeveloped culture of 'recycling on the go' and that there is no national strategy for on street recycling provision. The paper highlighted the existing initiatives and how we could address some of the issues related to recycling on the go.
- **Litter and fly-tipping on private land,** which attempted to cover the main issues around large accumulations of litter and fly-tipping on private land, including the impact this has on local environmental quality, what legislation is in place to deal with the problem, local case studies, and actions adopted by local authorities and the Environment Agency.

Dywedodd Jake, sy'n aelod o'r tîm:
"Roedd peth amser ers pan fûm ar fy meic ac mae'n rhaid i mi ddweud bod y cynnig o 20c y filltir yn sicr wedi helpu. Gwnaeth Cadwch Cymru'n Daclus arbediad hefyd, gan nad oeddent ond yn gorfod talu hanner y gost o ddefnyddio car. Er gwaetha'r blinder, mi ges lawer o foddhad o'r seiclo."

Dogfennau polisi

Cynhyrchwyd nifer o bapurau polisi gydag argymhellion a fyddai, o gael eu gweithredu, yn gallu cael effeithiau cadarnhaol iawn ar sbwriel, tipio anghyfreithlon ac ansawdd yr amgylchedd lleol yn gyffredinol.

- **Sbwriel bwyd cyflym** sy'n rhoi eglurhad am y cynnydd yn y math hwn o sbwriel a disgrifiad o'i effeithiau yn ogystal â nodi'r amrywiol fentrau sydd wedi eu cychwyn er mwyn mynd i'r afael â'r broblem a chynnig argymhellion i lywodraeth leol a'r diwydiant bwyd cyflym.
- **Sbwriel balŵns,** sy'n edrych ar effaith sbwriel o'r fath ar fywyd gwyllt o ganlyniad i ryddhau balŵns i'r awyr yn fwriadol at ddibenion codi arian.
- **Biniau ailgylchu – Ailgylchu wrth fynd,** sy'n nodi nad oes diwylliant cryf o ailgylchu wrth fynd yng Nghymru ac nad oes strategaeth genedlaethol ar gyfer darparu adnoddau ailgylchu ar strydoedd. Mae'r papur yn tynnu sylw at gynlluniau sy'n bodoli'n barod a sut y gellid mynd i'r afael â rhai o'r materion sy'n ymwneud ag ailgylchu wrth fynd.
- **Sbwriel a thipio anghyfreithlon ar dir preifat** a gynhyrchwyd er mwyn trafod y prif broblemau'n ymwneud â sbwriel difrifol a thipio anghyfreithlon ar dir preifat, yn cynnwys yr effaith ar ansawdd yr amgylchedd lleol, pa ddeddfwriaeth sy'n bodoli er mwyn mynd i'r afael â'r broblem, astudiaethau achos lleol a chamau a fabwysiadwyd gan awdurdodau lleol ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

Special Projects

Design

During our LEAMS surveys officers identify design features such as: tree guards and utility boxes which trap litter; public/private interfaces where a lack of natural surveillance has led to vandalism; and paving materials that have proved difficult to clean.

This information inspired the production of a policy paper in 2007 on Design and Litter. This in turn lead to a one year project, funded by a Welsh Assembly Government LEQ grant to produce supplementary guidance to provide examples of good design practice and to use the expertise of cleansing staff in the design process to reduce the problems identified. Copies of the guidance and a summary leaflet are available on Keep Wales Tidy's website.

Surveying Multi-Use Networks

In March 2009 a bid was made to the Welsh Assembly Government's LEQ fund to develop a methodology for surveying and managing the local environmental quality (LEQ) of the National Cycle Network (NCN), which is a multi-use route for a variety of users including the disabled and walkers. The project will cover two pilot areas in east and west Wales but the final product should be suitable for all off-road sections of the National Cycle Network in Wales. This project is a joint venture between Keep Wales Tidy and Sustrans.

Prosiectau Arbennig

Dylunio

Yn ystod ein harolygon LEAMS, mae swyddogion yn adnabod elfennau'n ymwneud â dylunio megis: cewyll coed a chypyrddau cyfleustodau sy'n trapio sbwriel; mannau rhyngwyneb cyhoeddus/preifat lle mae diffyg goruchwyliaeth naturiol wedi arwain at fandaliaeth; a deunyddiau palmantu sy'n anodd eu glanhau.

Arweiniodd yr wybodaeth hon at gynhyrchu papur polisi yn 2007 ar Ddylunio a Sbwriel. Ymhen amser, datblygwyd prosiect blwyddyn, wedi'i ariannu gan grant Ansawdd yr Amgylchedd Lleol Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynhyrchu canllawiau atodol er mwyn darparu enghreifftiau o arfer da mewn perthynas ag arferion dylunio da a defnyddio arbenigedd staff glanhau yn ystod y broses ddylunio gyda'r nod o leihau'r problemau a adnabuwyd. Mae copïau o'r canllawiau a thaflen am y cynllun ar gael ar wefan Cadwch Gymru'n Daclus.

Arolygon Rhwydweithiau Aml-ddefnydd

Ym mis Mawrth 2009 gwnaed cais i gronfa Ansawdd yr Amgylchedd Lleol Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu methodoleg ar gyfer arolygu a rheoli ansawdd amgylchedd lleol y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol, sef llwybr aml-ddefnydd ar gyfer pob math o ddefnyddwyr yn cynnwys yr anabl, beicwyr a cherddwyr. Bydd y prosiect yn cael ei gynnal mewn dwy ardal beilot yn nwyrain a gorllewin Cymru ond dylai fod y cynllun terfynol yn addas ar gyfer pob rhan o'r Rhwydwaith yng Nghymru sydd oddi ar ffordd. Mae'r prosiect hwn yn fenter ar y cyd rhwng Cadwch Gymru'n Daclus a Sustrans.

Campaigns

Fast food Litter – explicitly targeted was fast food litter associated with the night time economy. Its focus was a relatively young audience, which Keep Wales Tidy understood to be the main consumers of fast food. The campaign centred on bus backs and posters and coincided with the surge in night time activity around Christmas.

Graffiti – was targeted in March 2009, when Keep Wales Tidy launched a campaign "Graffiti – Crime not Art' to highlight the problems blighting many of our streets. An action plan and leaflet were produced to explain the law and to suggest ways to tackle the problem.

Ymgyrchoedd

Sbwriel bwyd cyflym – targedwyd y math hwn o sbwriel, sy'n gysylltiedig â'r economi min nos. Y ffocws oedd cynulleidfa gymharol ifanc, sef y rhai a adnabuwyd i fod y mwyaf tebygol o brynu bwyd parod. Roedd yr ymgyrch yn ymwneud yn bennaf â hysbysebion cefn bws a phosteri i gyd-fynd â phrysurdeb min nos o amgylch y Nadolig.

Graffiti – targedwyd ym Mawrth 2009, pan lansiodd Cadwch Gymru'n Daclus ymgyrch "Graffiti – Trosedd nid Celf' i dynnu sylw at y problemau sy'n difwyno nifer fawr o'n strydoedd. Cynhyrchwyd cynllun gweithredu a thaflen er mwyn egluro'r gyfraith ac awgrymu ffyrdd o daclo'r broblem.

"The beach award schemes operated by Keep Wales Tidy allows local authorities in Wales the opportunity and encouragement to improve the quality of beaches and marinas to a standard now demanded by visitors."

Tony Burgess,
Chief Environmental Health Officer, Anglesey County Council.

Blue Flag

Environment, Sustainability and Housing Minister, Jane Davidson announced in a ceremony in Port Talbot that 42 Welsh beaches and five marinas were included in the list of locations in 36 countries across the world being recognised for having met the strict bathing water and land-based criteria required to achieve the much sought after Blue Flag status.

Three beaches made their first appearance in the list and amongst them was the three-mile long Aberavon beach best known in the 60s and 70s as the Mecca for beach loving South Wales miners and their families. But to mark the new millennium, Neath Port Talbot Council undertook a massive beach front regeneration programme and their investment has resulted in it being included in the roll call of the world's top leisure destination.

Also making the list for the first time is Church Bay on Anglesey which can lay claim to being the location of the last thatched cottage on the island, and Newport beach in Pembrokeshire which is overlooked by the medieval Norman castle.

Beaches were judged against a total of 29 criteria which included reaching the highest water quality, good litter management, provision of information, strict dog controls and sustainable environmental management. Marinas will have met 16 land-based criteria that include reception

"Mae'r rhaglenni gwobrau traethau a weithredir gan Cadwch Gymru'n Daclus yn gyfle ac yn anogaeth i awdurdodau lleol Cymru i wella ansawdd eu traethau a'u marinas hyd at y safon y mae ymwelwyr yn ei disgwyl y dyddiau hyn."

Tony Burgess,
Prif Swyddog Iechyd Amgylcheddol, Cyngor Sir Ynys Môn.

Y Faner Las

Cyhoeddodd Jane Davidson, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai mewn seremoni ym Mhort Talbot bod 42 o draethau a phum marina yng Nghymru ar y rhestr o fannau mewn 36 o wledydd sydd yn cael eu cydnabod am gwrdd â'r meini prawf llym sydd yn ymwneud â'r dŵr ymdrochi a phethau ar y tir er mwyn cael statws Baner Las.

Mae tri o draethau ar y rhestr am y tro cyntaf ac yn eu mysg mae traeth Aberafan sydd yn dair milltir o hyd ac a oedd yn Feca i lowyr De Cymru a'u teuluoedd yn y 60au a'r 70au. Aeth Cyngor Castell-nedd Port Talbot ati i nodi'r mileniwm drwy gynnal rhaglen o waith i adfer y traeth ac mae eu buddsoddiad wedi ei wneud yn un o brif gyrchfannau gwyliau'r byd.

Traeth arall a enillodd y Faner Las am y tro cyntaf eleni yw Porth Swtan ar Ynys Môn lle mae bwthyn to gwellt olaf yr ynys, a thraeth Trefdraeth yn Sir Benfro gyda'r castell Normanaidd gerllaw.

Cafodd y traethau eu beirniadu yn ôl 29 o feini prawf sydd yn cynnwys ansawdd dŵr o'r safon uchaf, rheoli sbwriel, darparu gwybodaeth, rheoli cŵn a rheoli amgylcheddol cynaliadwy. Bydd y marinas wedi diwallu gofynion 16 o feini prawf sydd yn cynnwys cyfleusterau derbyn ar gyfer gwastraff peryglus,

facilities for hazardous waste, adequate lifesaving equipment and a commitment to safeguard their local environment.

The award is managed in Wales, on behalf of the Denmark based Foundation for Environmental Education, by Keep Wales Tidy. The Beach Awards Co-ordinator said: "Much has been achieved by Local Authorities and Welsh Water in improving the quality of our bathing water and upgrading land based infrastructure but we have some way to go before every beach and marina in Wales can claim to be clean and safe. We are very reliant on the tourism industry and if we are to meet the high standards demanded by our beach visitors every person in Wales has a role to play."

cyfarpar achub bywyd digonol ac ymrwymiad i ddiogelu eu hamgylchedd lleol.

Gweinyddir y wobr yng Nghymru, ar ran y Sefydliad Addysg Amgylcheddol sydd â'i bencadlys yn Nenmarc, gan Cadwch Gymru'n Daclus a dyma'r hyn a ddywedodd Cydlynydd y Wobr Traethau: "Cyflawnwyd llawer gan yr Awdurdodau Lleol a Dŵr Cymru o ran gwella ansawdd ein dŵr ymdrochi ac uwchraddio'r isadeiledd ar y tir ond mae mwy o waith i'w wneud eto cyn y bydd modd dweud bod pob traeth a marina yng Nghymru'n lân a diogel. Rydym yn ddibynnol iawn ar y diwydiant twristiaeth ac os am gyrraedd y safonau uchel a ddisgwylir gan ein hymwelwyr rhaid i bawb yng Nghymru wneud ei ran."

Minister for Environment, Sustainability and Housing, Jane Davidson endorsed the comments and added: "These results once again show the quality of the Welsh natural environment, which is an excellent resource for everyone in Wales and visitors to enjoy. The important work that is done to ensure the highest standards in bathing water supports the Welsh Assembly Government's commitment to improving countryside access."

Eleven flags were awarded in Pembrokeshire .On Anglesey six beaches and one marina met the standard. Gwynedd can boast five beaches and two marinas followed by Conwy and Swansea with four beaches and one marina, Ceredigion four beaches , Bridgend two beaches and Neath Port Talbot and the Vale of Glamorgan with one beach each.

The full list of Blue Flag Winning Beaches and Marinas for 2008 appears on the Keep Wales Tidy website.

Ategodd Jane Davidson, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, y sylwadau hyn gan ddweud "Mae'r canlyniadau hyn yn dangos unwaith eto safon uchel yr amgylchedd lleol yng Nghymru ac mae hwnnw'n adnodd ardderchog i bobl Cymru ac ymwelwyr ei fwynhau. Mae'r gwaith pwysig a wneir i sicrhau'r safonau uchaf o ran dŵr ymdrochi'n cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella mynediad i gefn gwlad."

Cyflwynwyd un ar ddeg o faneri i Sir Benfro. Mae chwech o draethau ac un marina'n cyrraedd y safon ar Ynys Môn. Mae pump draeth a dau farina yng Ngwynedd yn cwrdd â'r gofynion ac yna daw Conwy ac Abertawe gyda phedwar traeth ac un marina, Ceredigion â phedwar traeth a Chastell-nedd Port Talbot a Bro Morgannwg ag un traeth bob un.

Mae rhestr lawn o'r Traethau a'r Marinas a enillodd y Faner Las ar wefan Cadwch Gymru'n Daclus.

"This award is testimony to their dedication."

Green Coast Award

Representatives from award winning beaches in Wales and Ireland gathered on a windy Harlech beach to hear that 46 rural Welsh beaches and 14 Irish beaches were amongst the record list of rural beaches to be recognised for their natural beauty, clean environment and for having reached the highest bathing water quality.

The Green Coast Award was introduced in Wales in 1999 by Keep Wales Tidy and it recognises beaches prized for their natural, unspoilt environment which do not have the built infrastructure necessary to meet the criteria associated with more urban beaches. The project was later adopted in Ireland.

Emphasis is also placed on local community involvement in the ongoing and long term care of the award beach. This will include the removal of litter from their beach and identifying sites of ecological and historical interest and ensuring that the highest environmental standards are maintained.

Tegryn Jones, Chief Executive of Keep Wales Tidy commented: "Many people enjoy a beach experience far removed from the intrusions normally associated with the traditional and more urban beaches. They need look no further than the 2008 crop of Green Coast Award winning beaches. At most of the beaches you will find a dedicated group of volunteers and this award is testimony to their dedication."

"Mae'r wobr hon yn tystio i'w hymroddiad."

Y Wobr Arfordir Glas

Ar draeth gwyntog yn Harlech clywodd cynrychiolwyr o'r traethau yng Nghymru ac Iwerddon a enillodd wobr bod 46 o draethau gwledig Cymru a 14 o draethau Iwerddon ymysg y nifer fwyaf erioed o draethau a dderbyniodd gydnabyddiaeth am eu harddwch naturiol, eu hamgylchedd glân a'r safon uchaf o ran dŵr ymdrochi.

Cyflwynwyd y Wobr Arfordir Glas ym 1999 gan Cadwch Gymru'n Daclus er mwyn cydnabod amgylchedd naturiol glân y traethau lle nad oes amgylchedd adeiledig i gwrdd â'r meini prawf ar gyfer traethau mwy trefol. Yn ddiweddarach mabwysiadodd Iwerddon y prosiect.

Rhoddir pwyslais cryf hefyd ar y rhan a gymerir gan y gymuned leol mewn gofalu'n barhaus ac yn barhaol am y traeth. Mae hyn yn cynnwys clirio sbwriel oddi ar y traeth a nodi safleoedd sydd o ddiddordeb ecolegol a hanesyddol gan sicrhau y cedwir y safonau amgylcheddol uchaf.

Dywedodd Tegryn Jones, Prif Weithredwr Cadwch Gymru'n Daclus: "Mae llawer o bobl yn mwynhau traeth lle nad oes dim o'r hyn a gysylltir yn arferol â thraethau mwy trefol traddodiadol. Does dim rhaid iddynt chwilio ymhell gan fod rhestr dda o draethau wedi ennill y Wobr Arfordir Glas yn 2008. Fe welwch grŵp gweithgar o wirfoddolwyr ar y mwyafrif o'r traethau ac mae'r wobr hon yn tystio i'w hymroddiad."

Civic dignitaries were joined at the ceremony by representatives from Ireland and members of the local Coast Care group who had given up much of their spare time to ensure that the beach was a worthy award winner.

The Green Coast Awards are administered in Ireland by An Taisce under the banner of the Clean Coast Project. Funding is provided through the European Union INTERREG IIIA programme.

Pembrokeshire topped the list with 15 award winning beaches closely followed by Anglesey with 13 beaches. Gwynedd six, Swansea five, Ceredigion four, Vale of Glamorgan two and Conwy one. The list of award winning beaches for 2008 is shown on the Keep Wales Tidy website.

Seaside Award

Church Bay on Anglesey, once voted the most beautiful in Wales and the location of the island's last thatched crofting longhouse, achieved the ultimate accolade when it joined the impressive list of Welsh beaches that qualified to fly the coveted blue and yellow Seaside Award Resort flag.

To achieve Seaside Award status the award winning beaches will have attained the European Union minimum standard of bathing water quality and met a long list of strictly monitored land based criteria.

More than half of the applicants will have also met the much stricter Guideline water quality. All of them will also have satisfied the judges that the standard of their built infrastructure and overall management is also of a consistent high standard.

Of the 111 beaches announced for Wales, 61 were awarded to 'rural' beaches that will have met 13 land based criteria. The remaining 50 beaches are classified as 'resort' beaches and

Daeth pobl amlwg i'r seremoni wobrwyo ynghyd â chynrychiolwyr o Iwerddon ac aelodau o'r grŵp Gofal Arfordir lleol a oedd wedi rhoi llawer iawn o'u hamser i sicrhau bod y traeth yn enillydd teilwng.

Mae'r Gwobrau Arfordir Glas yn cael eu gweinyddu yn Iwerddon gan An Taisce dan faner y Prosiect Arfordir Glân. Caiff ei ariannu gan yr Undeb Ewropeaidd o fewn Rhaglen INTERREG IIIA.

Sir Benfro oedd ar ben y rhestr gyda 15 o draethau'n derbyn gwobr ac Ynys Môn yn ail agos gyda 13 o draethau. Roedd chwech yng Ngwynedd, pump yn Abertawe, pedwar yng Ngheredigion, dau ym Mro Morgannwg ac un yng Nghonwy. Mae rhestr o'r traethau a enillodd wobr yn 2008 ar wefan Cadwch Gymru'n Daclus.

Y Wobr Glan Môr

Cafodd Porth Swtan ar Ynys Môn, y bae harddaf yng Nghymru yn ôl pleidlais a gynhaliwyd unwaith, a lleoliad tŷ hir to gwellt olaf yr ynys, yr anrhydedd pan ymunodd â'r rhestr faith o draethau Cymru sydd wedi ennill yr hawl i chwifio baner las a melyn cyrchfan y Wobr Glan Môr.

Er mwyn ennill statws Gwobr Glan Môr mae'r traethau'n gorfod cyrraedd safon gofynnol yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer dŵr ymdrochi, a chwrdd â nifer o feini prawf llym ynglŷn â phethau ar y tir.

Mae mwy na hanner yr ymgeiswyr wedi cyrraedd y Canllawiau ansawdd dŵr hefyd, sydd yn llawer mwy llym. Maent i gyd yn gorfod sicrhau'r beirniaid bod yr isadeiledd adeiledig a'r rheolaeth gyffredinol o safon gyson uchel.

O'r 111 o draethau a dderbyniodd y faner yng Nghymru roedd 61 yn draethau 'gwledig' a oedd wedi cwrdd â'r 13 o feini prawf ynglŷn â phethau ar y tir. Roedd y gweddill yn

will have met the 26 criteria. These include dog ban areas, general safety, arrangements for disabled users and a range of requirements aimed at enhancing visitor enjoyment.

The awards are co-ordinated in Wales by Keep Wales Tidy and their Chief Executive, Tegryn Jones commented."The achievements of our national rugby team and the fact that 111 of our beaches have attained Seaside Award status demonstrate how team effort can bring success and national joy."

He added: "For many years local authorities, Welsh Water and numerous agencies have worked tirelessly to achieve so many quality beaches and we are now in a position to tell the world that our nations beaches have achieved the equivalent of Grand Slam status."

The list of award winning Seaside Award beaches for 2008 is shown on the Keep Wales Tidy website.

draethau 'cyrchfan' ac wedi cwrdd â'r 26 o feini prawf sydd yn cynnwys ardaloedd lle na chaniateir cŵn, diogelwch cyffredinol, trefniadau ar gyfer defnyddwyr anabl a nifer o ofynion eraill i sicrhau profiad pleserus i ymwelwyr.

Mae'r gwobrau'n cael eu cydlynu yng Nghymru gan Cadwch Gymru'n Daclus a dywedodd y Prif Weithredwr, Tegryn Jones "Mae llwyddiant ein tîm rygbi cenedlaethol a'r ffaith fod 111 o'n traethau wedi ennill Gwobr Glan Môr yn dangos sut y gall cydweithio mewn tîm ddod â llwyddiant a llawenydd cenedlaethol."

Ychwanegodd: "Mae'r awdurdodau lleol, Dŵr Cymru a llawer o asiantaethau wedi bod yn gweithio'n ddiflino ers blynyddoedd lawer i sicrhau llwyddiant cymaint o draethau ac rydym erbyn hyn mewn sefyllfa i ddweud wrth y byd bod traethau Cymru wedi cyrraedd statws y Gamp Lawn."

Mae'r rhestr o draethau a enillodd y Wobr Glan Môr yn 2008 ar wefan Cadwch Gymru'n Daclus.

"Their dedication is to be commended. I hope others will follow their example."

Jane Davidson,
Minister for the Environment, Sustainability and Housing.

Tidy Wales Awards

Winners at the 2008 Tidy Wales Awards ceremony will not have their deeds immortalised within the walls of the National Museum of Wales in Cardiff, but as they walked up to receive their awards in the Museum's Grand Hall, they were left in no doubt that their efforts contributed towards making Wales a better place to live in.

The prestigious 18th annual Tidy Wales Awards ceremony was sponsored by Environment Agency Wales and Visit Wales and it recognises individuals, businesses, schools and voluntary organisations from across Wales that have made real and lasting efforts to restore their blighted local environments to their former glory.

From the twelve category winners, Jane Davidson AM, Minister for the Environment, Sustainability and Housing, presented the specially commissioned bronze Tidy Wales Award Trophy and a cheque for £1,000 to Aman Valley Conservation Association whose 43 volunteer members had adopted a badly littered stretch of the Aman River and set about removing 282 bags of litter and 2.85 tonnes of general waste from its banks and overhanging trees.
All the category winners were presented with cheques for £500 and for certain categories special trophies were presented.

Jane Davidson, Minister for the Environment, Sustainability & Housing commented. "These awards are well deserved and pay tribute to true dedication and hard work. The groups and organisations recognised are making a real difference

"Rhaid canmol eu hymroddiad a gobeithio bydd eraill yn dilyn eu hesiampl."

Jane Davidson,
Gweinidog yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

Gwobrau Cymru Daclus

Ni fydd gweithredoedd da enillwyr Gwobrau Cymru Daclus 2008 yn sicrhau anfarwoldeb iddynt o fewn muriau'r Amgueddfa Genedlaethol, ond wrth iddynt fynd ymlaen i dderbyn eu gwobrau yn y seremoni wobrwyo yn y Neuadd Fawr yn yr Amgueddfa yng Nghaerdydd roeddent yn gwybod bod eu hymdrechion wedi cyfrannu at wneud Cymru'n lle gwell i fyw.

Hon oedd 18fed seremoni fawreddog flynyddol Gwobrau Cymru Daclus, ac fe'i noddwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chroeso Cymru. Mae'n cydnabod unigolion, busnesau, ysgolion a sefydliadau gwirfoddol o bob rhan o Gymru sydd wedi gwneud ymdrech wirioneddol a pharhaol i adfer eu hamgylchedd lleol blêr i'r gogoniant a fu. Cyflwynodd Jane Davidson AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, Dlws Efydd Gwobrau Cymru Daclus a gomisiynwyd yn arbennig, ynghyd â siec am £1,000 i Gymdeithas Cadwraeth Cwm Aman am y gwaith a wnaed gan y 43 o wirfoddolwyr a fabwysiadodd ddarn o'r Afon Aman lle'r oedd llawer iawn o sbwriel a chlirio llond 282 o fagiau o sbwriel a 2.85 tunnell o wastraff cyffredinol oddi ar lannau'r afon ac oddi ar y coed o'i chwmpas.

Cyflwynwyd sieciau am £500 i enillwyr pob categori ac roedd tlysau i'r enillwyr mewn rhai categorïau.

Dyma'r hyn a ddywedodd Jane Davidson AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai: "Mae'r rhain yn wobrau haeddiannol iawn ac maent yn tystio i ymroddiad gwirioneddol a gwaith caled iawn. Mae'r grwpiau a'r

to the environmental quality of communities across Wales. Their actions make our daily lives better – they create cleaner streets, greener parks and more welcoming neighbourhoods.

She added: "Keep Wales Tidy and the thousands of volunteers represented here are the best of 'people power'. These are individuals who decided to take action to repair their often blighted local environment. Their dedication is to be commended. I hope others will follow their example."

The **Large Partnership Award** category was won by the **Flintshire Countryside Service 'Big Dee Day'.** The event brought together 70 organisations and in a two-day clean up 639 volunteers collected over 1600 bags of litter and waste from the Dee Estuary. They also received the newly-commissioned **'Flogas Environmental Partnership Award'.** The **Public Sector category** was won by **Cleaner, Greener, Safer Streets** from Carmarthenshire. A partnership set up between the police, fire service, probation service, the county council and the community safety team to raise awareness of anti-social behaviour. The partnership also received the **'Welsh Assembly Government Public sector award'.**
For their efforts during 'Tidy Wales Week 2008' residents at the **Tudno/Emrys Estate** in Swansea won the top prize in the Biggest Tidy Wales Week event category and were presented with the **'Dŵr Cymru Community Award'**.

Regulars at the awards ceremony are the **Cwmcelyn Tenants and Residents Association** from Blaenau Gwent and they were the winners in the Long Term Effort category. Formed in 2001 they have been busy building bridges, planting hundreds of trees and erecting fencing at various locations in the area. The transformation of a neglected park and an ancient woodland resulted in the **Old Colwyn Environment Federation** in the County of Conwy winning the Tourism Industry category. They were presented with the newly-commissioned **'Vale Hotel Award'.**

sefydliadau a gydnabyddir yma heddiw'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ansawdd amgylcheddol cymunedau ym mhob rhan o Gymru. Mae eu gwaith yn gwneud ein bywydau bob dydd yn well – maent yn creu strydoedd glanach, parciau gwyrddach a chymdogaethau mwy croesawus.

Ac yna meddai "Mae Cadwch Gymru'n Daclus a'r miloedd o wirfoddolwyr a gynrychiolir yma heddiw'n dangos 'grym y bobl' ar ei orau. Dyma'r unigolion a benderfynodd y byddent yn gweithredu er mwyn adfer eu hamgylchedd lleol a hagrwyd. Rhaid canmol eu hymroddiad a gobeithio bydd eraill yn dilyn eu hesiampl."

Enillwyr y categori **Gwobr Partneriaeth Fawr** oedd **'Diwrnod Mawr y Ddyfrdwy' gan Wasanaeth Cefn Gwlad Sir Y Fflint**. Daeth 70 o sefydliadau ynghyd ar gyfer y digwyddiad ac yn ystod y ddau ddiwrnod o lanhau roedd hyd at 639 o wirfoddolwyr wedi casglu llond 1600 o fagiau o sbwriel a gwastraff o aber yr afon Ddyfrdwy. Cyflwynwyd iddynt y wobr a gomisiynwyd o'r newydd, sef **'Gwobr Partneriaeth Amgylcheddol Flogas'.**
Yng nghategori'r **Sector Cyhoeddus** daeth **Strydoedd Glanach, Gwyrddach a Diogelach** o Sir Gaerfyrddin i'r brig. Dyma bartneriaeth rhwng yr heddlu, y gwasanaeth tân, y gwasanaeth prawf, y cyngor sir a'r tîm diogelwch cymunedol a sefydlwyd i godi ymwybyddiaeth o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Derbyniodd y bartneriaeth **'Wobr Sector Cyhoeddus Llywodraeth Cynulliad Cymru'.**

Derbyniodd trigolion **Stad Tudno/Emrys** yn Abertawe'r wobr gyntaf yn y categori Digwyddiad Mwyaf 'Wythnos Cymru Daclus' am eu gwaith yn ystod 'Wythnos Cymru Daclus 2008' a chyflwynwyd iddynt **'Wobr Gymunedol Dŵr Cymru'.**
Mae **Cymdeithas Tenantiaid a Thrigolion Cwmcelyn** o Flaenau Gwent yn wynebau cyfarwydd yn y seremoni wobrwyo a hwy oedd enillwyr y categori Ymdrech

The **'Forestry Commission Wales Woodland Award'** in the new woodland category was won by the **Cwmaman Woodlands Company**. Formed in 2006 to transform six hectares of coalfield land into a community woodland, the group have since transformed the once inaccessible area into a wildlife haven and sculpture trail.

John Adkins from Torfaen joins the special breed of award winning individuals who take it upon themselves to improve their local environment. For the past five years John has given up much of his spare time to carry out litter picking, vegetation management and path and pond construction in his patch.

Since late 2007 **Kelda Water Services Wales** staff in Newport have dedicated over 400 man hours to community projects and their commitment to improving their localities resulted in them winning the Business category. They were presented with the Sue Humphrey Memorial Award.

An excellent example of young people being good citizens was demonstrated by the winners in the Community

Hirdymor. Ffurfiwyd hwy yn 2001 ac maent wedi bod yn brysur yn adeiladu pontydd, yn plannu cannoedd o goed a chodi ffensys mewn gwahanol leoliadau yn yr ardal. Eleni cwblhawyd y cam pwysicaf yn eu rhaglen sef agor y goedwig ar ei newydd wedd.

Trawsnewid parc a hen goedwig hynafol a oedd wedi eu hanwybyddu a ddaeth â'r wobr gyntaf yn y categori Diwydiant Twristiaeth i **Ffederasiwn Amgylcheddol Hen Golwyn,** sir Conwy. Yn y broses o adfer parc a choedwig lleol i'w hen ogoniant cliriodd aelodau'r ffederasiwn gannoedd o fagiau o sbwriel, plannwyd coed a blodau gwyllt brodorol dirifedi a gosodwyd blychau cynefin i adar, ystlumod a draenogod. Cyflwynwyd iddynt wobr a gomisiynwyd o'r newydd sef **'Gwobr Gwesty'r Vale'.**

Cyflwynwyd **'Gwobr Coetir Comisiwn Coedwigaeth Cymru'** a'r wobr ariannol o £500 yn y categori coetiroedd newydd i **Gwmni Coetiroedd Cwmaman** a ffurfiwyd yn y flwyddyn 2006 i droi chwech hectar o faes glo'n goetir cymunedol. Mae'r grŵp wedi troi'r ardal a oedd unwaith yn anhygyrch yn lloches i fywyd gwyllt ac yn llwybr cerflunwaith.
Mae **John Adkins** o Dorfaen yn un o'r math arbennig hwnnw o unigolyn sydd yn gwneud gwaith yn unigol i wella'r amgylchedd lleol. Mae John wedi aberthu llawer o'i amser rhydd ers pum mlynedd i wneud gwaith megis casglu sbwriel, rheoli llystyfiant ac adeiladu llwybrau a llynnoedd yn yr ardal. Derbyniodd siec am £500.

Ers diwedd 2007 mae staff **Gwasanaethau Dŵr Kelda Cymru** yng Nghasnewydd wedi treulio mwy na 400 o oriau i gyd ar brosiectau cymunedol ac oherwydd eu hymroddiad i wella eu hardaloedd lleol hwy oedd yr enillwyr yn y categori Busnes. Yn ystod eu prosiectau glanhau maent wedi clirio 10 llond sgip, 106 o fagiau ac 16 tunnell o sbwriel cyffredinol. Cyflwynwyd iddynt Wobr Goffa Sue Humphrey.

Group category. The **Tre-Telynog Environmental Group** which is made up of young people living on the estate had contributed 85 hours in carrying out five litter picks.They were presented with the newly- commissioned **'Valley to Coast Community Award'.**

Dell Project Management Team from Flintshire were the winners in the Schools category. The team adopted a ten acre wildlife habitat adjoining the school grounds and since 1989 they have removed many tonnes of waste from the area so that the local community could enjoy the amenity.

The Beach Improvement category was won by **Hafan Hedd** in Ceredigion. The group was established in 2005 and consists of staff and clients of the Ceredigion Community Mental Health Team. They meet once a week to clean up the coastline between Cardigan and Aberystwyth. To date they have collected over 1,386 bags of litter,as well as maintaining footpaths and steps leading down to Mwnt beach.

There were double celebrations for the **Aman Valley Conservation Association** who won the River Improvement category, receiving a cheque for £500 and the Bernard Jones Memorial trophy. The group were also judged worthy winners of the overall Tidy Wales Award Trophy.

Chris Mills, Director, Environment Agency Wales, said, "There has been excellent work done by many dedicated groups and individuals around Wales. I would like to congratulate not only the winners, but everyone who entered, as they all worked tirelessly to improve our environment. They can all deservedly feel proud of themselves."

Gwelwyd enghraifft wych o bobl ifanc yn ymddwyn fel dinasyddion da pan gyhoeddwyd enillwyr y categori Grŵp Cymunedol. Grŵp o bobl ifanc sydd yn byw ar y stad yw **Grŵp Amgylcheddol Tre-Telynog** ac mae'r bobl ifanc hynny wedi cyfrannu 85 o oriau o'u hamser eu hunain eleni'n cynnal pump o sesiynau casglu sbwriel. Casglwyd llond 80 o fagiau o sbwriel a 45,800 o ganiau ac ailgylchwyd y rheini. Cyflwynwyd i'r grŵp dlws newydd y **'Wobr Gymunedol Cymoedd i'r Arfordir'.**

Tîm Rheoli Prosiect 'Dell' o sir y Fflint oedd enillwyr y categori Ysgolion. Mae'r tîm wedi mabwysiadu cynefin bywyd gwyllt deng erw gerllaw tir yr ysgol ac ers 1989 maent wedi clirio tunelli lawer o wastraff er mwyn i'r gymuned leol gael mwynhau'r ardal.

Enillwyr y categori Gwella Traeth oedd **Hafan Hedd** yng Ngheredigion. Sefydlwyd y grŵp yn y flwyddyn 2005 ac mae'n cynnwys staff a chleientiaid Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol Ceredigion. Maent yn cwrdd unwaith yr wythnos i glirio'r arfordir rhwng Aberteifi ac Aberystwyth. Hyd yma maent wedi casglu llond mwy na 1,386 o fagiau o sbwriel ac wedi cynnal llwybrau troed a'r grisiau sydd yn mynd i lawr i draeth y Mwnt.

Roedd yr achlysur yn ddathliad dwbl i **Gymdeithas Cadwraeth Cwm Aman**, sef enillwyr y categori Gwella Afon, gan iddynt dderbyn y siec am £500 a thlws coffa Bernard Jones am ddod i'r brig yn eu categori. Hwy hefyd oedd enillwyr y wobr fawr sef Tlws Gwobr Cymru Daclus.

Dywedodd Chris Mills, Cyfarwyddwr Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, "Mae llawer o grwpiau ac unigolion ymroddedig iawn yng Nghymru wedi gwneud gwaith ardderchog. Hoffwn longyfarch yr enillwyr, a hefyd y cystadleuwyr eraill, gan eu bod i gyd wedi gweithio'n ddiflino i wella'u hamgylchedd. Mae ganddynt bob lle i ymfalchïo yn eu gwaith."

Tidy Wales Week

Tidy Wales Week 2008 saw 30,000 volunteers of all ages do their bit to clean up their neighbourhood, and as a result many long standing litter black spots across Wales were removed.

To assist groups to take part, Keep Wales Tidy produced 1000 free clean-up kits, sponsored by Visit Wales and Environment Agency Wales. The kits were put to good use, with hundreds of bags of litter being collected from over 700 locations.

A number of flagship events took place over Wales, starting with the launch event at Swansea Bay. Jane Davidson, Minister for Environment, Sustainability and Housing joined in with the activities and viewed the extent of the litter problem along the coast.

Not only had the litter become an eyesore, but it was also having an impact on the local wildlife and community. Volunteers from Ffynone Trust School, Mumbles Development Trust and the University of Swansea joined Keep Wales Tidy and the City and County of Swansea Council to carry out the beach clean.

Tidy Wales Week also saw the opening of a Visitor attraction on the Berwick Levels in Llanelli, to raise awareness of the protected water vole. Volunteers from the Watervole Action Group, Carmarthenshire County Council, CCW, Environment Agency Wales, Wildfowl and Wetlands Trust and CAVS joined forces with Keep Wales Tidy to carry out a final cleanup of the site that was once a severe flytipping hotspot.

Other events included a blitz of Rhyl, a cleanup of The Walks Estate in Flintshire, a large scale cleanup of the Taff Trail, River Taff and its banks between the weir and Dixon Street Bridge in Merthyr Tydfil, removing over a tonne of waste. Volunteers in West Wales decided to tackle a flytip in Devon Drive, Pembroke, removing a skip full of waste and 130 bags.

Wythnos Cymru Daclus

Yn ystod Wythnos Cymru Daclus 2008 bu 30,000 o wirfoddolwyr o bob oed yn gwneud eu rhan i lanhau eu hardaloedd ac o ganlyniad i'r gwaith cliriwyd llawer o'r mannau yng Nghymru lle'r oedd sbwriel ar ei waethaf.

Er mwyn helpu grwpiau i gymryd rhan cynhyrchodd Cadwch Gymru'n Daclus 1000 o becynnau clirio, a noddwyd gan Croeso Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Gwnaed digon o ddefnydd o'r pecynnau a chasglwyd llond cannoedd o fagiau o sbwriel o fwy na 700 o leoliadau.

Trefnodd Cadwch Gymru'n Daclus nifer o ddigwyddiadau amlwg drwy Gymru gan gychwyn â'r digwyddiad lansio ym Mae Abertawe. Ymunodd Jane Davidson, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, yn y gwaith a gwelodd gymaint yw'r broblem sbwriel ar yr arfordir.

Mae'r sbwriel yn hyll i'r llygad ond mae hefyd yn peryglu'r bwyd gwyllt a'r gymuned leol. Ymunodd gwirfoddolwyr o Ysgol Ymddiriedolaeth Ffynone, Ymddiriedolaeth Datblygu'r Mwmbwls a Phrifysgol Abertawe â Cadwch Gymru'n Daclus a Chyngor Dinas a Sir Abertawe i glirio'r traeth.

Yn ystod wythnos Cymru Daclus hefyd agorwyd atyniad i Ymwelwyr yn y Ferwig, Llanelli, i godi ymwybyddiaeth o'r Llygoden Ddŵr sydd yn rhywogaeth a warchodir. Ymunodd gwirfoddolwyr o'r Grŵp Gweithredu Llygod Dŵr, Cyngor Sir Gaerfyrddin, y Cyngor Defnyddwyr Dŵr, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Ymddiriedolaeth Adar y Gwlypdir a Chymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin â Cadwch Gymru'n Daclus i glirio, unwaith ac am byth, y safle a fu unwaith yn un o'r mannau lle'r oedd tipio anghyfreithlon ar ei waethaf.

Ymysg y gwaith arall a gyflawnwyd gwnaed gwaith clirio mawr yn y Rhyl, glanhawyd Stad y Walks yn Sir y Fflint,

